# Y Diweddaraf am Gaffael yn Sector Cyhoeddus Cymru

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn ymateb i'r diddordeb a fynegodd Cyngor Datblygu'r Economi yn y Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 21 Medi (Atodiad 1) gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol.

2. Mae'r adroddiad diweddaru'n ymdrin â'r materion a ganlyn:

    - Cyrchu gan sector cyhoeddus Cymru o'r tu mewn i Gymru;
    - Datblygu cadwyni cyflenwi a gwneud busnesau llai yng Nghymru yn fwy abl i gystadlu am gontractau;
    - Camau i'w cymryd yn y dyfodol.

## Y cyd-destun

3. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r papur hwn i'w nodi mewn ymateb i gais gan Gyngor Datblygu'r Economi. Gofynnodd y Cyngor am yr wybodaeth ddiweddaraf am gyrchu gan y sector cyhoeddus yng Nghymru ac am wneud busnesau llai yng Nghymru yn fwy abl i gystadlu am gontractau.

## Argymhelliad

4. Gwahoddir Cyngor Datblygu'r Economi i nodi cynnwys y papur hwn.

## Cyrchu gan sector cyhoeddus Cymru o'r tu mewn i Gymru

5. Mae sector cyhoeddus Cymru yn gwario rhyw £5.8 biliwn y flwyddyn drwy gaffael gwaith, nwyddau a gwasanaethau.

6. Er mwyn inni fedru dadansoddi'r gwariant hwnnw, casglwyd data o systemau credydwyr ar draws sector cyhoeddus Cymru a'u casglu ynghyd mewn un gronfa ddata. Mae cyrchu o'r tu mewn i Gymru yn cael ei gategoreiddio'n gyflenwyr sydd â chyfeiriad talu â chod post yng Nghymru.

7. O gymharu â llinell sylfaen o 35% yn 2004, mae cyrchu o'r tu mewn i Gymru wedi bod yn rhyw 50% o gyfanswm y gwariant yn gyson ers blwyddyn ariannol 2007/08.

8. Ar ôl dadansoddi data am wariant yn 2015/16, gwelwyd bod y gwariant yn ôl sector fel a ganlyn:

| Sector | Cyfanswm | Gwariant yng Nghymru | |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | £676,241,214 | £295,370,979 | 44% |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | £11,220,143 | £2,371,318 | 21% |
| Addysg Bellach | £15,645,119 | £9,702,333 | 62% |
| Tân ac Achub | £45,119,362 | £21,747,085 | 48% |
| Addysg Uwch | £279,039,028 | £96,587,610 | 35% |
| Llywodraeth Leol | £3,176,145,789 | £1,862,822,538 | 59% |
| Y GIG | £1,333,500,624 | £547,945,722 | 41% |
| Yr Heddlu | £135,395,498 | £57,577,866 | 43% |
| Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | £83,321,273 | £31,494,721 | 38% |

9. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) yn rheoli gwariant cyffredin ac ailadroddus ar ran 73 o sefydliadau sy'n gwsmeriaid iddo. O fis Medi 2017 ymlaen, mae'r GCC wedi dyfarnu 58 o fframweithiau i 710 o gyflenwyr. Mae 48% (340) o'r cyflenwyr hynny yng Nghymru ac mae 39% (278) ohonynt yn BBaChau yng Nghymru.

10. Rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mehefin 2017, gwariwyd £422.9 miliwn drwy'r cytundebau a reolir gan y GCC, gyda £122 miliwn (29%) yn mynd i Gyflenwyr yng Nghymru a chyfanswm o £87.4 miliwn (21%) wedi'i wario gyda BBaChau yng Nghymru.

**Datblygu cadwyni cyflenwi a gwneud busnesau llai yng Nghymru yn fwy abl i gystadlu am gontractau**

11. Wrth fynd ati i lunio polisïau caffael ac i'w rhoi ar waith, cydnabuwyd bod angen datblygu ffyrdd o weithio sy'n galluogi busnesau mwy lleol, llai i fanteisio ar gyfleoedd caffael.

12. Mae'n hanfodol bod cyfleoedd i gael contractau is eu gwerth yn amlwg i fusnesau bach. Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi cael cymorth i ddefnyddio mwy ar GwerthwchiGymru i hysbysebu hysbysiadau is eu gwerth, sydd bellach yn cyfrif am fwy nag 80% o'r holl gontractau a hysbysebir ar y porth. Cyflenwyr yng Nghymru sy'n ennill dros 60% o'r contractau a ddyfernir ar GwerthwchiGymru.

13. Mae'r polisi Budd i'r Gymuned yn annog cyrff cyhoeddus i weithio gyda chontractwyr mwy o faint a chynnig cyfleoedd yn y cadwyni cyflenwi i gyflenwyr lleol llai o faint. Ar ôl mesur contractau sydd wedi defnyddio'r cynllun budd i'r gymuned ac sydd, gyda'i gilydd, yn werth £1.4 miliwn, gwelwyd bod 81% o'r gwariant hwnnw wedi'i wneud drwy gadwyni cyflenwi yng Nghymru.

14. Caiff cyrff cyhoeddus eu hannog, drwy gyfrwng y canllaw ar Gyflwyno Cynigion ar y Cyd, i fabwysiadu dulliau caffael sy'n galluogi cyflenwyr llai i ffurfio consortia er mwyn creu mwy o gapasiti a chael gwell cyfleoedd i ennill contractau uwch eu gwerth. Dangosodd prosiectau peilot a gynhaliwyd er mwyn helpu i ddatblygu'r canllaw fod gweithredu fel hyn yn gallu helpu busnesau llai i gydweithio ac i ennill contractau uchel eu gwerth.

15. Drwy gydweithio â Busnes Cymru, gellir helpu i roi gwybod i gyflenwyr lleol, llai am gyfleoedd caffael drwy gyfuniad o ddigwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr a chymorth busnes un i un.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol**

16. Bydd y proffiliau gwariant presennol a phroffiliau gwariant y dyfodol yn cael eu mapio yn ôl amryfal elfennau economi Cymru er mwyn helpu i ddatblygu cynlluniau caffael sy'n adlewyrchu cryfderau cyflenwyr lleol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda busnesau i ystyried pob opsiwn posibl ar gyfer datblygu cadwyni cyflenwi lleol a

llenwi unrhyw fylchau cyflenwi ar draws y wlad, fel bod busnesau Cymru mewn lle da i gystadlu ac i gyflwyno cynigion am gontractau'r sector cyhoeddus yma yng Nghymru a thu hwnt.

17. Mae rhaglen gaffael newydd wrthi'n cael ei datblygu. Bydd y rhaglen newydd hon yn ymateb i anghenion cyrff cyhoeddus ledled Cymru a bydd yn ceisio cynnig y cymorth y mae ei angen arnynt i fanteisio i'r eithaf ar wariant caffael.

18. Bwriedir manteisio ar y cyfleoedd a allai godi wrth i'r DU adael yr UE er mwyn datblygu proses a fydd yn un benodol i Gymru ac a fydd yn helpu i roi mwy o ran i gyflenwyr lleol llai.

19. Bydd gwybodaeth a ddatblygwyd ar wariant arfaethedig ar gaffael cyhoeddus yn cael ei hategu gan waith ar draws y llywodraeth i roi mwy o gefnogaeth i fusnesau yng Nghymru er mwyn iddynt gael y gyfran fwyaf bosibl o'r gwariant ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru ac er mwyn gwella prosesau fel y bo rhagor o BBaChau Cymru yn ennill contractau.

20. Mae prosiectau peilot ar waith i sicrhau bod darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan annatod o waith caffael. Bydd yr hyn a ddysgir drwy'r prosiectau peilot hyn yn cael ei hyrwyddo ledled Cymru.

21. Byddwn yn mynd ati i ddatblygu ffyrdd o weithio yn y dyfodol ar y cyd â phartneriaid cymdeithasol a busnesau er mwyn edrych ar bob cyfle posibl i ddefnyddio'r £5.8 biliwn y flwyddyn y mae sector cyhoeddus Cymru yn eu gwario ar gaffael i sbarduno twf economaidd yng Nghymru.